



Bwletin GwE



#Diolch




Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cyfleoedd gyda GwE

Rheolwr Adnoddau GwE

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain y gwaith o sicrhau bod gan GwE gyfundrefnau a systemau priodol ar gyfer cyflawni rheolaeth ariannol effeithiol. Bydd y Rheolwr Adnoddau yn gyfrifol am gynllunio a rheoli adnoddau'r gwasanaeth gan weithredu newidiadau a rheoli gweithgareddau. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys sicrhau yr ymlynir wrth holl reoliadau ariannol a chaffael, a bod prosesau busnes y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn er sicrhau adrodd am wybodaeth reoli ystyrlon oddi mewn i GwE.

Bydd hefyd yn cynghori'r Uwch Dîm Arwain ynghylch materion sy'n ymwneud â chyllid, eiddo, materion staff, iechyd a diogelwch, gan ddarparu cyswllt ag Adnoddau Dynol.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 14 HYDREF 2021

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, ar 03005008087 neu e-bost ArwynThomas@GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais ewch i www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch â 01286 679076.



Cynnig Proffesiynol GwE


Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

06/10/2021-21/03/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Adborth (Shirley Clarke)	12/10/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl - hyfforddiant 2 ddiwrnod ar gyfer Uwch Arweinwyr	13/10/2021	Saesneg
Pris Tlodi Disgyblion - Plant yng Nghymru	14/10/2021	Saesneg
Cyfarfod Rhwydwaith ITM - SECTOR UWCHRADD	14/10/2021	Dwyieithog
Lefel Sylfaen mewn Hyfforddiant Therapi Gwneud Llun a Siarad	20/10/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl - hyfforddiant 2 ddiwrnod ar gyfer Uwch Arweinwyr	01/11/2021	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus ynghylch Trawma i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar	03/11/2021	Saesneg
ANG Sesiwn 3 - ANG a Lles Disgyblion	08/11/2021	Cymraeg
ANG Sesiwn 3 - ANG a Lles Disgyblion	11/11/2021	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	12/11/2021	Saesneg
ANG Sesiwn 4 - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth	24/11/2021	Cymraeg
ANG Sesiwn 4 - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth	25/11/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	26/11/2021	Saesneg
Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas	03/12/2021	Saesneg
ANG Sesiwn 5 - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg	07/12/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	08/12/2021	Saesneg
Rôl yr Oedolyn Allweddol	10/12/2021	Saesneg
ANG Sesiwn 5 - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg	10/12/2021	Cymraeg
ANG Sesiwn 6 - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke	12/01/2022	Cymraeg
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG Sesiwn 6 - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke	14/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
'Biofilia' - 'Gwell mewn nag allan', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus ynghylch Trawma i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg



Rhaglenni Cenedlaethol

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer carfanau nesaf y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol.

RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH GANOL	
Dolen i'r wefan: https://tinyurl.com/ybyzyvya	Ymholiadau: RhDAG@gwegogledd.cymru
Ceisiadau yn agor	14/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 07/10/21
Sesiwn rhagarweiniol i ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

RHAGLEN DATBLYGU UWCH ARWEINWYR	
Dolen i'r wefan: https://tinyurl.com/cdks3293	Ymholiadau: RhDUA@gwegogledd.cymru
Ceisiadau yn agor	21/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 14/10/21
Sesiwn rhagarweiniol i ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

RHAGLEN DATBLYGU DARPAR BENAETHIAID – PARATOI AR GYFER CPCP	
Dolen i'r wefan: https://tinyurl.com/k7638d4w	Ymholiadau: CPCP@gwegogledd.cymru
Lansio'r Rhaglen	01/07/21
Sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr	13/09/21 & 14/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 22/10/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2022
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2023

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Cliciwch [yma](#) am ddyddiadau a gwybodaeth am sut i ymuno â'r sesiynau briffio **enedlaethol** i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG), Mentoriaid Sefydlu ANG a Gwirwyr Allanol ANG 2021-22.

Gweler yn benodol wybodaeth am y Rhaglen Dysgu Proffesiynol i gefnogi Mentoriaid Sefydlu ANG [yma](#).

Mae'r sesiynau hyfforddi **rhanbarthol** ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6 bellach. Gweler mwy o fanylion a dyddiadau [yma](#) ac ar G6.



Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 4** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **12 Tachwedd 2021**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

Cymorthyddion Dysgu
newydd eu penodi

Cymorthyddion
Dysgu wrth eu
gwaith

Darpar CALU

CALU

Cymorthyddion
Dysgu
Arbenigol

Cyfle cyffrous i Gynorthwyrwyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyrwyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyrwyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Rhaglen Partneriaethau Ysgolion - GWAHODDIAD I DDATGAN DIDDORDEB

Hyd yn hyn, mae 72 o ysgolion y rhanbarth wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn, sy'n hybu dull llwyddiannus o adolygu, gwella a chydweithio â chymheiriaid. Gwahoddir [datganiadau o ddiddordeb](#) yn awr gan glystyrau eraill o ysgolion cynradd, UauCD a chynghreiriau o ysgolion uwchradd. [Cliciwch yma](#) am fanylion pellach am y Rhaglen a sut i ddatgan diddordeb. Gofynnir yn garedig i un Pennaeth o'r clwstwr / cynghrair gwblhau'r Datganiad, i'w ddychwelyd erbyn 08/10/21.

Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol 2021/22

Dilynwch y [canllawiau sydd ynghlwm](#) i fynd at y dangosfwrdd.

Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys y 3 prif grant rhanbarthol:

- Grant Gwella Addysg
- Grant Datblygu Disgyblion
- Grant Dysgu Proffesiynol

Os cewch unrhyw broblem, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant neu anfonwch e-bost i grantiau@GwEGogledd.Cymru

Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel y nodwyd yn [natganiad](#) y Gweinidog ar 14 Gorffennaf, ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi'u haddasu.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i nodi yn y diweddariad yn y ddolen ganlynol:

[Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diweddariad](#)

Sesiwn gwyll gyda Shirley Clarke

Rydym yn falch iawn o groesawu Shirley Clarke yn ôl atom i ogledd Cymru i'n diweddaru a'n cynorthwyo gyda'n gwaith o ddatblygu ac esblygu asesu ffurfiannol yn ein hysgolion fel rhan o'n paratodau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. **12 Hydref 2021** 3:45 – 5:15 'Adborth'
Cadwch le drwy gofrestru ar G6 os gwelwch yn dda.



Asesiad Gwaelodlin 2021

Bu i'r Gweinidog Addysg gyhoeddi cyn gwyliau'r haf ei bod hi'n ofynnol eleni i ysgolion cynradd gynnal asesiadau gwaelodlin ar ddisgyblion y dosbarth Derbyn o fewn y 6 wythnos gyntaf yn Nhymor yr Hydref (gweler y datganiad [yma](#)).

Ceir cyflwyniad gan dîm Cyfnod Sylfaen GwE sy'n cynnig arweiniad ar sut i asesu disgyblion yn erbyn y proffil cryno yn adran 'Cyfnod Sylfaen' Canolfan Gefnogaeth GwE.

<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/>

Cysylltwch drwy e-bost i dderbyn arweiniad gan: AnnaHughes@gwegogledd.cymru / GwawrEleriThomas@gwegogledd.cymru / JoanneDavies@gwegogledd.cymru

Er nad yw'n ofynnol i ysgolion weithredu'r asesiad gwaelodlin gyda disgyblion meithrin, mae GwE o'r farn bod hyn yn arfer dda er mwyn adnabod gwaelodlin plentyn ar fynediad i'r ysgol.

Podlediad Cadernid Digidol GwE

Mae'r podlediadau cadernid digidol yn trafod testunau sy'n ymwneud â diogelwch a lles digidol ac yn gyfle i chi ddysgu mwy am yr agweddau dan sylw mewn ffordd hwyliog a hylaw. Mae pennod 1 "Camwybodaeth" a phennod 2 "Bod yn driw i'ch hun ar lein" bellach ar gael. Chwiliwch am 'Cadernid Digidol' ar eich llwyfannau podlediad arferol neu [cliciwch yma](#).



Dyfodol Byd-Eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

Canolfan Cefnogaeth GwE: [leithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau.

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/?lang=en>

NEWYDDLEN ITM DYFODOL BYD-EANG:

UWCHRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#) **CYNRADD:** [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

CYFLEOEDD HYFFORDDI I ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

Cyfle am gyllid ar gyfer leithoedd Rhyngwladol

Rydym yn chwilio am ysgolion cynradd sydd am ddatblygu eu darpariaeth leithoedd Rhyngwladol wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Cynigir cyfle i nifer o ysgolion gael tansgrifiad i adnoddau Power Language Schools. Os hoffech wneud cais am y tansgrifiad blwyddyn hwn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Cystadleuaeth Gwobr Anthea Bell i Gyfieithwyr Ifanc

Mae cystadleuaeth gyfieithu newydd yn cael ei lansio yn yr hydref 2021 i fyfyrwyr rhwng 11 ac 18 oed yng Nghymru. Cynhelir y gystadleuaeth o'r Ffrangeg i'r Gymraeg am y tro cyntaf yn 2021-2022.


Am fwy o wybodaeth am dasgau'r gystadleuaeth ac adnoddau addysgu ar gyfer y llinynnau Cymraeg a Saesneg, [cliciwch ar y ddolen yma](#).

ITM SECTOR UWCHRADD- CYFARFOD RHWYDWAITH

14 Hydref 2021: 3.45- 4.45pm – Cofrestru ar G6



Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol



Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 2021-2022

Mae ein Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 yn cynnig cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

HYSBYSIAD SECONDIAD: Cynghorydd Proffesiynol: Cwricwlwm ac Asesu (x2)



Diben y ddwy rôl yw darparu cyngor arbenigol a phroffesiynol i'r Is-adran Cwricwlwm ac Asesu, fel ymarferwyr addysgu, wrth ddatblygu a gweithredu polisi Llywodraeth Cymru.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#). DYDDIAD CAU: 10/10/2021 AM 23:55

Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol



CYFRES SEMINARAU 2021-2022

Bydd cyfres seminarau 2021-2022 Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad yn gysylltiedig â blaenoriaethau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Gobeithiwn y gall ymarferwyr, llunwyr polisi ac ymchwilwyr ymuno â ni ar gyfer y sesiynau hyn. Byddant yn cael eu cynnal rhwng 3 a 4.30 ar y dyddiadau [yma](#), a hynny drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Rhaglen 'Meistr mewn Addysg' Newydd

[Cliciwch yma](#) am y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen 'Meistr mewn Addysg' newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021.

Ymgyrch Recriwtio Athrawon

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo addysgu fel gyrfa i gynorthwywyr dysgu, newidwyr gyrfa, graddedigion, myfyrwyr a rhieni sydd yn aros gartref.

Gweler [www.addysgwyr.cymru](#) i gael mwy o wybodaeth.

Os oes gennych chi stori ysbrydoledig am sut y daethoch chi i'r byd addysg y byddai'n werth ei rhannu trwy'r wefan, cysylltwch â ceriwilliams3@gwegogledd.cymru

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn recriwtio ysgolion ar hyn o bryd i gymryd rhan yng Nghylch 5



Yn sgil y Prosiect Mentora Ffiseg, cafodd myfyrwyr o brifysgolion Cymru eu hyfforddi i weithio mewn ysgolion ledled Cymru i fentora disgyblion ym mlyneddau 9-11 mewn Ffiseg.

Mae'r adroddiadau gwerthuso wedi dangos bod cymryd rhan mewn Mentora Ffiseg yn arwain at gynydd yn nifer y myfyrwyr ysgol sy'n bwriadu dilyn Safon Uwch Ffiseg a mynd i yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM, gan gynnwys merched, sydd wedi'u gwahardd rhag astudio Ffiseg yn hanesyddol. Mewn gwirionedd, mae'r prosiect yn arwain at welliant yn agwedd pawb tuag at ffiseg, p'un a ydyn nhw'n mynd ymlaen i ddewis y pwnc ai peidio.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cynnal y prosiect yn eich ysgol, cysylltwch â physicsmentoring@caerdydd.ac.uk. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, a byddan nhw'n cael eu neilltuo i ysgolion mewn cydweithrediad â'r Arweinwyr Gwyddoniaeth Uwchradd yn eich consortia.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).



Rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori 2021



COFRESTRWCH AR GYFER RHAGLEN FEITHRIN 2021 PORI DRWY STORI NAWR!

[Cliciwch yma](#) i gofrestru i dderbyn dau set o adnoddau dwyieithog am ddim ar gyfer pob plentyn dosbarth meithrin:

Cynlluniwyd y rhaglen ar gyfer plant 3-4 oed yn y ddau dymor olaf cyn iddynt fynd i'r dosbarth Derbyn. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi sgiliau llafaredd, cefnogi rhieni / gofalwyr i fod yn bartneriaid yn addysg eu plant, a chefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Rhaid i chi gofrestru'n flynyddol ar gyfer y rhaglen.

DYDDIAD CAU: 11 HYDREF 2021



Labordai dysgu Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu (GCCDD)

Mae Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu (GCCDD) yn cynnal y labordy dysgu cyntaf ar gyfer athrawon yng Nghymru. Dewch draw i drafod y gwersi rydym wedi'u dysgu o'r pandemig a sut medrwn eu defnyddio yn y dyfodol.

Cofrestrwch: shorturl.at/fpAB6



#dyluniodysgucymru



Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu
Wales Collaborative for Learning Design



MA Astudiaethau Addysg (rhan-amser) - Prifysgol Bangor

Gweler isod y modiwlau sy'n cael eu cyflwyno yn ystod y pum penwythnos MA yn y flwyddyn academaidd hon:

MODIWLAU DYDD SADWRN - Rheoli Ymddygiad, Cyfarfod ag ADY, Theori Dyslecsia, Iechyd Meddwl, Addysgu yn y Blynyddoedd Cynnar, Arweinyddiaeth Addysgol.

MODIWLAU DYDD SUL - Dwyieithrwydd mewn Addysg, Dulliau Ymchwil mewn Addysg, Addysgu Dysgwyr Dyslecsig, Cwnsela mewn Addysg, Datblygu Sgiliau Mentora.

Gwnewch gais ar-lein trwy Geisiadau Uniongyrchol, dyma'r ddolen i'ch galluogi i wneud hyn:

<https://www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/astudiaethau-addysg-rhan-amser-ma>

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **Dydd Mercher, 6 Hydref 2021.**

Y Cliciatur / Clic-It

Mae rhifyn diweddaraf yr e-bapur newydd dwyieithog Y Cliciatur/Clic-It ar gael ar safwe Hwb: [Cliciatur](#) | [Clic-It](#)



Byd Addysg
in Education



Cyfle i Gymryd Rhan: Prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru)

Drwy gyfres o sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar-lein ac am ddim i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn 2021/2022. Bydd y prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru) gan y Sefydliad Ffiseg yn helpu athrawon i adnabod y rhwystrau a allai fod yn cyfyngu ar ddyheadau eu disgyblion, a bydd yn dangos sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol gyfan.

Bydd pob sesiwn yn para 90 munud ar ôl ysgol a bydd rhywfaint o waith i'w wneud rhwng y sesiynau. Argymhellir bod dau athro'n cymryd rhan o bob ysgol fel bod modd rhannu'r hyn a ddysgir. Cyflwynir y sesiynau yn Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael [yma](#).

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch e-bost at: anita.shaw@iop.org

IOP Institute of Physics
Cymru | Wales

Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe: Arloesi Anhygoel

Cofrestrwch eich dosbarth i fynd ar daith drwy'r oesoedd, gan edrych yn ôl dros gyfnodau arloesol ac anhygoel trwy gydol hanes peiriannau gyda chymorth Grace Webb a'i beic modur ei hun! Byddwch yn derbyn pecyn adnoddau cyffrous i'w gwblhau yn yr ystafell ddosbarth a chael cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn rhithwir unigryw, gyda chyfle ychwanegol i gael gweithdy corfforol hefyd.

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael ar gyfer y digwyddiad hwn. Rhaid cadw lle cyn 15 Hydref

tc1.me/SwanseaScienceFestival



Digwyddiadau Technocamps

Mae gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â'r penawdau

Cynhadledd Addysg

Mae Cynhadledd Addysg Technocamps 2021 yn gyfle i gyfarfod ag addysgwyr cynradd ac uwchradd eraill yng Nghymru, rhannu arferion gorau, dysgu am unrhyw newidiadau yn y cwricwlwm a darganfod pa gefnogaeth sydd ar gael! Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal ddydd Iau 4 Tachwedd yn Stadiwm Liberty, Abertawe ac mae'n rhad ac am ddim, diolch i gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Technotalks

Mae'r gyfres gyntaf o bodlediadau cyflogadwyedd Technocamps ar gael trwy Spotify a SoundCloud! Ei nod yw difyrru a hysbysu pobl 11-18 oed am y gyrfaedd sydd ar gael iddynt yn y sectorau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg. Rydym ni'n sgwrsio â phobl ysbrydoledig mewn gyrfaedd STEM i drafod beth yw eu swyddi, eu llwybrau gyrfa a'r dechnoleg newydd gyffrous yn eu maes.

post@gwegogledd.cymru

